**Dyddiad:** **Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2002**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3 & 4 , Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Cyngor Gofal Cymru**

## Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi gwybodaeth gefndirol fras am Gyngor Gofal Cymru a'i gyflwyniad i'r Pwyllgor heddiw.

## Crynodeb ac Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor i gwrdd ag aelodau o Gyngor Gofal Cymru, a gwrando ar gyflwyniad gan y Cyngor ar ei rôl a'i swyddogaeth a'i brif amcanion.

## Cefndir

3. Sefydlwyd Cyngor Gofal Cymru fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad dan Ddeddf Safonau Gofal 2001 a ddaeth i rym ar 1af Hydref 2001. Mae gan y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod gennym yng Nghymru weithlu gofal cymdeithasol sydd wedi'i hyfforddi'n iawn, sydd â'r cymwysterau priodol ac sy'n cael ei reoleiddio'n effeithiol, ac sy'n cael ei gefnogi a'i reoleiddio'n briodol. Bydd y Cyngor yn gwneud hyn drwy, am y tro cyntaf, sefydlu cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol a chyhoeddi codau ymddygiad ac ymarfer ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig. Bydd yn ysgogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu yn y sector ac yn hybu safonau hyfforddiant uchel.

4. Yng Nghymru mae'r Cyngor hefyd wedi cymryd y cyfrifoldeb am reoleiddio hyfforddiant cymhwyso a hyfforddiant ôl-gymhwyso ar gyfer gweithwyr cymdeithasol o gorff y DU, Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol, sydd bellach wedi'i ddiddymu.

5. Mae'r Cyngor ei hun wedi'i sefydlu i sicrhau bod gan bob un â diddordeb lais a bod defnyddwyr gwasanaethau, cynhalwyr a'r cyhoedd, yn gyffredinol, yn y mwyafrif. Mae Cynghorau tebyg wedi cael eu sefydlu yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

6. Mae'r cyfarfod heddiw yn gyfle i'r Pwyllgor gwrdd â'r Cadeirydd, yr Aelodau a Phrif Swyddog Gweithredol y Cyngor a gwrando ar gyflwyniad byr gan y Cyngor ar ei rôl a'i swyddogaeth, ei brif amcanion a'i waith hyd yma. Bydd amser ar gael i ofyn cwestiynau a thrafod.

7. Cafodd Aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y Cyngor yn fy Adroddiad Misol a chawsant bapur i'w nodi ar sefydlu'r Cyngor ar 14 Medi 2000.

**Cydymffurfio**

8. Sefydlwyd y Cyngor Gofal dan Ddeddf Safonau Gofal 2001. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Cyllid**

9. Nid oes unrhyw faterion ariannol yn deillio o'r papur hwn.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Swyddog Cyswllt: Margaret Provis, AGCC est 6692